# GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (PONT MENAI, YNYS MÔN A GWYNEDD) (GWAHARDD TRAFFIG DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd, neu o ddifrod difrifol i'r ffordd, na ellir ei briodoli i'r gwaith ac i alluogi gwaith ac arolygiadau i gael eu cynnal ar gefnffordd yr A5, neu gerllaw iddi, wrth Bont Menai.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd sy'n pwyso 7.5 tunnell neu fwy a/neu sydd dros 3 metr o uchder rhag mynd ar Bont Menai. Caniateir i gerbydau'r gwasanaethau brys sydd dros 3 metr o uchder groesi'r Bont mewn amgylchiadau eithriadol, yn amodol arnynt yn pwyso llai na 7.5 tunnell. Dim ond un cerbyd o'r fath a ganiateir ar y bont ar unrhyw adeg;

ii. gwahardd pob cerbyd arall (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir ar gyfer y gwaith/arolygiadau), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar Bont Menai. Mae'r ddarpariaeth hon wedi ei chynnwys fel rhagofal os bydd unrhyw achosion o dorri'r cyfyngiadau uchder a phwysau.

Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen cau'r ffordd er mwyn cynnal arolygiadau ac efallai y bydd angen gwneud gwaith. Codir arwyddion traffig ymlaen llaw i ddangos unrhyw achosion o gau.

Yn ystod y cyfnodau cau, y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain yw mynd ar yr A5 Ffordd Caergybi tua'r gorllewin i ymuno â'r A55 tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8A (Cyfnewidfa Carreg Brân) a pharhau ar hyd Pont Britannia i Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Bangor. Dylai cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin ddilyn yr A487 tua'r de-orllewin o gylchfan Tafarn yr Antelope i ymuno â'r A55 tua'r gorllewin wrth Gyffordd 9.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 27 Gorffennaf 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol o 00:01 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Mae dau Orchymyn dros dro cyfredol ar gyfer y cyfyngiadau uchder a phwysau wedi eu dirymu ac mae'r darpariaethau hynny wedi eu cydgrynhoi yn y Gorchymyn newydd hwn.

# THE A5 TRUNK ROAD (MENAI SUSPENSION BRIDGE, ANGLESEY AND GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF TRAFFIC) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary due to the likelihood of danger to the public, or of serious damage to the road, which is not attributable to works and to enable works and inspections to be undertaken on or near the A5 trunk road at Menai Suspension Bridge.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit all vehicles weighing 7.5 tonnes or more and/or exceeding 3 metres in height from proceeding on the Menai Suspension Bridge. Emergency services vehicles above 3 metres in height will be permitted to cross the Bridge in exceptional circumstances, subject to them weighing less than 7.5 tonnes. Only one such vehicle will be allowed on the bridge at any one time;

ii. prohibit all vehicles (other than those being used for the works/inspections), cyclists and pedestrians from proceeding on the Menai Suspension Bridge. This provision is included as a precaution in the event of any breaches of the height and weight restrictions.

In such circumstances, closures will be required for inspections to be undertaken and works may be needed. Any closures will be indicated by advance traffic signs.

During closures, the alternative route for eastbound vehicles is via the westbound A5 Holyhead Road to join the eastbound A55 at Junction 8A (Carreg Bran Interchange) and continue via the Britannia Bridge to Junction 9 (Treborth Interchange), Bangor. Westbound vehicles should follow the south-westbound A487 from the Antelope Inn Roundabout to join the westbound A55 at Junction 9.

The Order comes into force on 27 July 2026. The temporary prohibitions are expected to operate from 00:01 hours on that date for a maximum duration of 18 months.

Two extant temporary Orders for the height and width restrictions are revoked and those provisions are consolidated into this new Order.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o’r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government’s website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government